## Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Sgiliau ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi safbwynt teg a rhesymol am effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012.

*Leighton Andrews AC*

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau

9 Ionawr 2012

## Disgrifiad

1. Mae Rheoliadau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg (Penodi) 2012 yn gwneud darpariaeth ynghylch penodi personau i fod yn aelodau o Banel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg.

## Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

2. Dim.

## Y cefndir deddfwriaethol

3. Mae adran 23 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (“y Mesur”) yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â phenodi panel o gynghorwyr ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg (“y Comisiynydd”). Cyfeirir at y panel hwnnw yn y Mesur fel y "Panel Cynghori". Rhaid i Weinidogion Cymru benodi personau i fod yn aelodau o'r Panel Cynghori. Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau hefyd, i’r graddau y bo hynny'n ymarferol, fod gan y Panel Cynghori o leiaf 3, ond dim mwy na 5, o aelodau ar unrhyw adeg.

4. Bydd y Panel Cynghori yn ffynhonnell o gyngor a chefnogaeth i’r Comisiynydd gyda'r bwriad o gynorthwyo'r Comisiynydd wrth iddo arfer ei swyddogaethau. Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori wrth baratoi adroddiadau penodol ac wrth arfer swyddogaethau penodol mewn perthynas â safonau sy'n ymwneud â'r Gymraeg. Yn ogystal â hynny mae'r Mesur yn rhoi'r pŵer i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Panel Cynghori ar unrhyw fater. Bydd unrhyw safbwyntiau a gynigir gan y Panel Cynghori yn cyfrannu at benderfyniadau'r Comisiynydd wrth iddo arfer y swyddogaethau a roddwyd i'r Comisiynydd gan y Mesur.

5. Mae paragraff 1(1) o Atodlen 4 i'r Mesur yn darparu bod rhaid i Weinidogion Cymru, wrth benodi aelodau i'r Panel Cynghori, gydymffurfio â rheoliadau penodi a wnaed o dan baragraff 5 o'r Atodlen honno.

6. Mae paragraff 5 o Atodlen 4 i'r Mesur yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ynghylch penodi'r Panel Cynghori (y cyfeirir atynt yn y Mesur fel "rheoliadau penodi").

7. Mae'r ddarpariaeth y gellir ei gwneud yn y rheoliadau penodi yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddarpariaeth ynghylch: yr egwyddorion sydd i'w dilyn wrth benodi aelodau'r Panel Cynghori; darpariaeth ynghylch yr wybodaeth o'r Gymraeg, a hyfedredd ynddi, y mae’n rhaid i aelodau o’r Panel Cynghori feddu arnynt; a darpariaeth am yr wybodaeth am faterion sy'n berthnasol i waith y Comisiynydd, a'r profiad ohonynt, y mae'n rhaid i aelodau'r Panel Cynghori feddu arnynt. Caiff y rheoliadau penodi gymhwyso hefyd unrhyw god ymarfer sy'n gysylltiedig â phenodi i gyrff cyhoeddus. Mae paragraff 5(6) o Atodlen 4 i'r Mesur yn darparu y caiff y

rheoliadau penodi roi swyddogaethau i Weinidogion Cymru (yn ogystal ag i unrhyw berson arall), gan gynnwys swyddogaethau sy'n ymwneud ag arfer disgresiwn.

8. Fel y nodir yn adran 150(3) o'r Mesur, mae'r rheoliadau hyn yn destun y weithdrefn penderfyniad negyddol.

**Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Amcanion Polisi

9. Yn unol â'r Mesur, wrth benodi i'r Panel Cynghori, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru gydymffurfio â rheoliadau penodi. Heb y rheoliadau hyn, ni all Gweinidogion Cymru arfer eu swyddogaeth i benodi aelodau i'r Panel Cynghori ac ni ellir cyflawni'r amcanion polisi sy'n gysylltiedig â rôl y Panel Cynghori, fel y'u nodir yn y Mesur.

10. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth sy'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru a fydd yn gymwys wrth iddynt benodi i'r Panel Cynghori. Bwriedir i'r dyletswyddau hyn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn dilyn egwyddorion sefydledig ym maes penodiadau cyhoeddus ac i sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith ei bod yn ddymunol cael Panel Cynghori sy'n cynnwys personau sydd â gwybodaeth a phrofiad o faterion sy'n berthnasol i waith y Comisiynydd.

Effaith

11. Mae rheoliad 2 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth benodi aelodau i'r Panel Cynghori, i ddilyn egwyddorion cyfrifoldeb gweinidogion, teilyngdod, craffu annibynnol, cyfle cyfartal, uniondeb, didwylledd a thryloywder, a chymesuredd, gan ystyried y disgrifiad o'r egwyddorion hynny yng Nghod Ymarfer y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrff Cyhoeddus, dyddiedig Awst 2009. Mae'r egwyddorion hyn yn ystyriaethau craidd wrth wneud penodiadau cyhoeddus.

12. Mae rheoliad 3 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, wrth benodi aelodau i'r Panel Cynghori, i ystyried y ffaith ei bod yn ddymunol i aelodaeth y Panel Cynghori gynnwys personau â gwybodaeth o'r Gymraeg, a hyfedredd ynddi.

13. Mae rheoliad 4 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, cyn penodi aelodau i'r Panel Cynghori, i ganfod i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol wybodaeth a phrofiad y Comisiynydd o: lywodraethu corfforaethol; arfer swyddogaethau sydd wedi'u rhoi gan neu o dan ddeddfiad; hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg neu unrhyw iaith arall; cysylltiadau cyhoeddus; cyfundrefnau rheoleiddiol; a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol..

14. Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi canfod gwybodaeth a phrofiad y Comisiynydd, yn unol â rheoliad 4 mae'n ofynnol iddynt wrth benodi i ystyried y ffaith ei bod yn ddymunol bod gwybodaeth a phrofiad y Comisiynydd a'r Panel Cynghori, gyda'i gilydd, yn cynnwys gwybodaeth a phrofiad o: lywodraethu corfforaethol; arfer swyddogaethau sydd wedi'u rhoi gan neu o dan ddeddfiad; hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg neu unrhyw iaith arall; cysylltiadau cyhoeddus; cyfundrefnau rheoleiddiol; a gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau yn y sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol.

<u>Ymgynghori</u>

15. Nid oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal ar yr egwyddorion polisi nac ar y rheoliadau gan na fyddant yn cael effaith uniongyrchol ar y sectorau cyhoeddus, preifat na gwirfoddol.

**Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

16. Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi gan na fydd y rheoliadau yn cael effaith sylweddol ar fusnesau, y sector gwirfoddol, llywodraeth leol ac eraill.

17. Nid oes gan y ddeddfwriaeth hon unrhyw effaith ar ddyletswyddau statudol (adrannau 77 -79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006) na phartneriaid statudol (adrannau 72-75 o'r Ddeddf honno).